


Gweithgareddau Ysgrifennu

Portread

Yn yr uned hon ceir sbardunau amrywiol a thaflen gynllunio ar sut i ysgrifennu portread yn ogystal â gridiau hunanasesu i'r disgyblion. Cofiwch fod yna gyflwyniad Pwerbwynt i gyd-fynd â'r gwaith.

Gwefan ddefnyddiol:


www.bbc.co.uk/cymru/tacteg/cymraeg



CYMRAEG yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru

Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio Ysgrifennu

Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio



Ysgrifennu

Sgiliau

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:


1. ddefnyddio nodweddion y ffurfiau a ddewisir gan addasu eu harddull yn unol â'r gynulleidfa a'r pwmpas
2. cysylltu brawddegau a chymalau yn ddealladwy ac yn drefnus; defnyddio cystrawennau amrywiol Cymraeg a pharagraffu'n effeithiol
3. defnyddio atalnodi i gyfleu ystyr priodol gan gynnwys:
 - atalnod
 - atalnod llawn
 - gofynnod
 - dyfynnod
 - ebychnod
 - collnod
 - acen grom
 - pwyntiau bwled
4. dewis a defnyddio geirfa briodol, datblygu iaith goeth, rywiog a'i defnyddio i greu effeithiau
5. meithrin cywirdeb trwy:
 - ddefnyddio ffurfiau berfol
 - negyddu brawddegau
 - defnyddio arddodiaid
6. defnyddio ystod o strategaethau i'w galluogi i sillafu'n gywir; gwirio sillafu trwy ddefnyddio dulliau amrywiol, gan gynnwys TGCh
7. defnyddio geirfa a therminoleg briodol wrth ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain, a gwaith eraill
8. drafftio a gwella eu gwaith gan ddefnyddio TGCh fel bo'r angen i:
 - baratoi a chynllunio
 - drafftio ac ailddrafftio'r cynnwys a'r iaith
 - prawf-ddarllen
 - paratoi copi terfynol
9. cyflwyno'u gwaith yn briodol gan:
 - ddatblygu llawysgrifen ddarllenadwy, yn unol â chonfensiwn
 - defnyddio dulliau cyflwyno a gosod pwrpasol, gan gynnwys TGCh.

Ystod

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:


1. ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau gan gynnwys:
 - difyrru
 - cyflwyno gwybodaeth
 - mynegi barn
 - cyfleu teimladau a syniadau
2. ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd real a dychmygus, e.e. yr hunan, cyd-ddisgyblion, disgyblion iau, athrawon, teulu a ffrindiau
3. ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau, e.e. stori, cerdd, sgript, taflen, poster, hysbyseb, adroddiad, dyddiadur, nodiadau, testun electronig, portread, cyfarwyddiadau, holiadur, adolygiad, erthygl, araith
4. ysgrifennu mewn ymateb i amrywiaeth o symbyliadau clywedol, gweledol a chlyweledol, e.e. stori, cerdd, eu diddordebau, eu gweithgareddau a'u profiadau yn y dosbarth a thu hwnt, rhaglen deledu, cerflun.

Ysgrifennu Portread



PERSONOLIAETH

- ♦ Pwy yw e?
- ♦ Pa fath o berson yw e?
- ♦ Beth mae e'n hoffi gwneud?



GWEITHREDOEDD

- ♦ Ydy e'n gwneud rhywbeth sy'n unigryw iddo ef?


GOLWG

- ♦ Beth sy'n arbennig am ei olwg?
- ♦ Beth mae ei ddewis o wisg yn ei ddweud amdano?
- ♦ Beth fedrwch chi ddweud am ei gorff a'r ffordd mae'n cerdded?

HANES


- ♦ Beth sy'n arbennig am ei gefndir?
- ♦ Beth yw hanes ei deulu?
- ♦ Beth am ei fywyd gwaith?

Ysgrifennu Portread



PERSONOLIAETH

- ♦ Pwy yw hi?
- ♦ Pa fath o berson yw hi?
- ♦ Beth mae hi'n hoffi gwneud?



GWEITHREDOEDD

- ♦ Ydy hi'n gwneud rhywbeth sy'n unigryw iddi hi?


GOLWG

- ♦ Beth sy'n arbennig am ei golwg?
- ♦ Beth mae ei dewis o wisg yn ei ddweud amdani?
- ♦ Beth fedrwch chi ddweud am ei hosgo?

HANES

- ♦ Beth sy'n arbennig am ei chefnidir?
- ♦ Pa fath o gartref sydd ganddi?
- ♦ Beth yw hanes ei theulu?
- ♦ Beth am ei bywyd gwaith?

Ysgrifennu Portread



PERSONOLIAETH

- ♦ Pwy yw e?
- ♦ Pa fath o berson yw e?
- ♦ Beth mae e'n hoffi gwneud?



GWEITHREDOEDD

- ♦ Ydy e'n gwneud rhywbeth sy'n unigryw iddo ef?


GOLWG

- ♦ Beth sy'n arbennig am ei olwg?
- ♦ Beth mae ei ddewis o wisg yn ei ddweud amdano?

HANES

- ♦ Beth sy'n arbennig am ei gefndir?
- ♦ Beth yw hanes ei deulu?
- ♦ Beth am ei fywyd gwaith?

Ysgrifennu Portread



PERSONOLIAETH

- ♦ Pwy oedd hi?
- ♦ Pa fath o berson oedd hi?
- ♦ Beth oedd hi'n hoffi gwneud?



GWEITHREDOEDD


- ♦ A oedd hi'n gwneud rhywbeth oedd yn unigryw?

GOLWG

- ♦ Beth oedd yn arbennig am ei golwg?
- ♦ Beth oedd ei dewis o wisg yn ei ddweud amdani?

HANES

- ♦ Beth oedd yn arbennig am ei chefnidir?
- ♦ Beth oedd hanes ei theulu?
- ♦ Beth am ei bywyd gwaith?




Cynllunio Portread

PERSONOLIAETH

GWEITHREDOEDD


GOLWG

HANES



Ansoddeiriau, ansoddeiriau a mwy o ansoddeiriau!

GOLWG	WYNEB	GWISG	PERSONOLIAETH		
ifanc golygus deniadol gosgeiddig smart llwm cyfoethog byr tew tenau hen araf gwan eiddil gwirion dwl cyhyrog main tal tlawd	crwn hir bochgoch fflamgoch salw hagr hyll hardd ffein addfwyn cas annwyl siriol llon hoffus hapus tlws trist prydfarth gwelw tenau esgyrnog caredig	ffasiynol modern newydd hen lliwgar amryliw cynnes tenau carpiog taclus brwnt budr anniben trwsiadus aflêr glân hen ffasiwn drewllyd	llawen llon caredig cariadus annwyl siriol ffein mwyn dymunol direidus chwareus ystwyth teg hwyliog anturus hoffus awyddus melltigedig hyderus poblogaidd hapus dewr tyner	serchog gweithgar diwyd ffyddlon da trist cas creulon cyfrwys cecrus sbeitlyd gofidus maldodus ffyrnig afresymol aflonydd anhrefnus cwerylgar nerfus siaradus dioglyd swnllyd pryfoclyd	gonest barus esgeulus sarrug sbengllyd milain drwg od penderfynol chwit-chwat trwsgl cerddorol araf cyflym sionc call ffol tawel swil aeddffed swynol dauwynebog bywiog




Portread

Hunanasesu



Oes priflythyren ar ddechrau enw'r cymeriad?	
Oes priflythyren ar ddechrau pob brawddeg?	
Oes atalnod llawn ar ddiwedd pob brawddeg?	
Oes paragraff i ddisgrifio golwg y person?	
Oes paragraff i ddisgrifio personoliaeth y person?	
Ydy' r brawddegau'n dechrau'n gywir gyda: Mae ganddo / ganddi ?	
Oes cymhariaeth yn y portread?	

Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn:



Portread

Hunanasesu



Ydy'r atalnodi'n gywir?

Oes paragraff ar gyfer pob pwynt, e.e. golwg, personoliaeth, gweithredoedd, hanes?

Oes defnydd effeithiol o ansoddeiriau yma?

Oes ambell gymhariaeth yma?

A ydy'r arddodiaid wedi eu rhedeg yn gywir, e.e.

Mae ganddo / Mae ganddi

Oes llawer o amrywiaeth yma o ran dechrau brawddegau?

Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn:



Portread

Hunanasesu



Oes cynllun pendant i'r gwaith?	
Oes paragraff newydd ar gyfer pob pwynt?	
Oes defnydd o ansoddeiriau gwreiddiol yma?	
Oes cymariaethau gwreiddiol yma?	
Oes brawddegau amrywiol eu strwythur yma?	
Oes defnydd o idiomau yma?	
Ydy'r portread yn creu darlun cyflawn o'r person?	

Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn: